

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Abertawe

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Abertawe i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Abertawe bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Abertawe 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes ac at ei gilydd mae lefelau gwasanaeth wedi cael eu cynnal drwy gydol y fframwaith. Er bod yr oriau agor wedi cael eu diwygio a'u bod bellach yn is na'r canolrif yng Nghymru, mae'r nifer uchel o lyfrau sy'n cael eu benthycio yn awgrymu nad yw hyn wedi effeithio ar berfformiad. Mae lefelau staffio wedi cael eu hadlinio mewn perthynas â pherfformiad llyfrgelloedd ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at wasanaeth llyfrgell cynaliadwy. Mae hyrwyddo adnoddau Cymraeg wedi arwain at welliannau yn y maes hwn ac mae hyn yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r gwasanaeth. Er bod cyllidebau wedi gostwng, mae hon yn duedd a welir mewn gwasanaethau eraill ledled Cymru. Mae lefelau staffio wedi parhau i fod yn sefydlog ers 2018/19, ac er bod lefelau staffio proffesiynol yn parhau'n isel, mae gan y gwasanaeth weledigaeth glir ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at amrywiaeth o flaenoriaethau a nodau strategol Llywodraeth Cymru.

- Gwelwyd gostyngiad yn y ffigurau ymwelwyr, ond cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant er 2018/19. Mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 12% er 2017/18 ac mae ffigurau yn y maes hwn yn parhau'n llawer uwch na'r canolrif. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm cyffredinol yng Nghymru.
- Mae lawrlwythiadau electronig, gan ddilyn y patrwm yng Nghymru, wedi cynyddu 144% er 2017/18, gan adlewyrchu newid yn ymddygiad yr aelodau.
- Effeithiodd y toriad yn y gyllideb yn 2019/20 ar gaffael deunyddiau Cymraeg hefyd, gan arwain at ostyngiad bach yn y maes hwn, ac nid yw'r targedau (DA 10) yma wedi'u cyflawni drwy gydol y fframwaith.
- At ei gilydd, mae lefelau staffio wedi aros yr un fath er 2018/19, ond maent wedi gostwng er 2017/18. Mae cyfanswm y staff fesul 10,000 o'r boblogaeth yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi gostwng 12% er 2018/19, ac o drwch blewyn y cyflawnir y targed.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Abertawe yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae Abertawe yn parhau i weithio gyda phartneriaid amrywiol er mwyn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau amrywiol. Mae gwelliannau i ardaloedd ffisegol yn parhau'n flaenoriaeth, ac mae newidiadau i'r adeilad yn llyfrgelloedd Gorseinon a Chlydach yn 2019/20 wedi arwain at fannau a rennir gyda gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio mewn cysylltiad agos â gwasanaethau llyfrgell eraill, gan gyfrannu at fentrau e-adnoddau Cymru gyfan, ynghyd â'r consortia benthyca rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol, 'Books4U'. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff drwy adolygu a gwneud cofnod o ofynion hyfforddiant.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Abertawe yn cyflawni 6 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	X	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	X	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	X	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	X	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	X	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	X	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Abertawe wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newid arwyddocaol er 2018/19.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Abertawe ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	94%	=5/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	86%	=12/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Abertawe bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Cefnogaeth i gyn-garcharorion – gwerth y cydweithrediad rhwng Llyfrgell Ganolog Abertawe a llyfrgell carchar Abertawe i un unigolyn. Mae'r llyfrgell gyhoeddus yn darparu amgylchedd diogel, ymddiriedaeth, a ffordd o oresgyn risgiau a dylanwadau negyddol ym mywyd un aelod a dreuliodd gyfnod yng ngharchar Abertawe.
- Grŵp llyfrau Llyfrgell Llansamlet – effaith grŵp llyfrau llwyddiannus. Tystiolaeth gadarnhaol gan unigolion amrywiol i ddangos y gwahaniaeth y mae'r grŵp llyfrau wedi'i wneud i'w bywydau. Mae nifer o bobl yn dod i'r grŵp o gefndiroedd amrywiol. Mae'r grŵp wedi arwain at gefnogaeth a chyfeillgarwch dros nifer o flynyddoedd i lawer o aelodau'r grŵp, gan leihau unigrwydd a rhannu cwmnïaeth.
- Bechgyn ar y traeth – Casgliad o luniau o draethau lleol o'r 1950au. Prosiect ar y cyd â Chymdeithas Hanes Ystumllwynarth. Crëwyd arddangosfa o luniau yn y llyfrgell, gan ddenu ymwelwyr newydd a chael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn â dementia a rannodd y lluniau.
- Manteision cyfryngau digidol i iechyd – e-lyfrau sain i helpu pobl sy'n cael trafferthion cysgu. Darganfu unigolyn sy'n cael problemau ag insomnia fod gwranddo ar lyfrau sain o'r llyfrgell yn ei helpu i ymlacio a syrthio i gysgu. Roedd yr unigolyn yn rhyfeddu at ystod ac amrywiaeth y teitlau a oedd ar gael, pa mor hawdd oeddent i'w defnyddio, a'r ffaith fod y gwasanaeth am ddim. Mae BorrowBox wedi gwella ei hiechyd a'i llesiant.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Abertawe ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	61%	15/18	25%	75%	94%	61%
c) iechyd a lles	58%	=13/19	38%	69%	96%	58%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=12/19	90%	96%	100%	96%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=7/18	78%	91%	99%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/18	88%	97%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	78%	=13/17	65%	85%	99%	78%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	=2/18	85%	96%	100%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.5	=1/19	8.0	9.1	9.5	9.5
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,762	12/22	2429	3987	6874	4,272
b) rhith-ymweliadau fesul pen	924	11/22	239	909	2131	850
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	175	6/22	78	145	244	185
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²						
	622	12/22	311	680	1468	557
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	8	14/22	4	9	14	9
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	29%	10/22	14%	30%	64%	33%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,751	11/22	£7,260	12,448	£23,333	£12,240
b) % ar staff	76%	=1/22	48%	61%	76%	75%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=6/22	5%	13%	22%	14%
% ar offer ac adeiladau	2%	=17/22	0%	8%	28%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	8%	17/22	1%	18%	35%	8%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£123	14/22	£0	£1,567	£13,027	£575
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Abertawe ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018, a gwelwyd lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid unwaith eto. Mae'r gwaith arfaethedig i uwchraddio cyfrifiaduron personol at ddefnydd y cyhoedd y cyfeiriwyd ato yn 2018/19 wedi'i gwblhau erbyn hyn, ar wahân i un safle ysgol, a bwriedir cynnal arolwg arall yn 2021. Mae pob llyfrgell sefydlog yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant, ac mae pob targed craidd ac ychwanegol yn cael ei gyflawni yma. Mae nifer y grwpiau darllen sydd wedi'u sefydlu wedi cynyddu 50% er 2018/19 ac mae pob un wedi cael ei annog i 'ddarllen yn uchel'. Yn ystod 2019/20, cymerodd Llyfrgelloedd Abertawe gamau breision tuag at wneud y gwasanaeth yn un Ystyriol o Awtistiaeth. Mae Llyfrgell Ganolog Abertawe yn gweithio tuag at ddyfarniad Ystyriol o Awtistiaeth y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o'r staff wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Abertawe yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Gwelwyd gostyngiad yn y ffigurau ymwelwyr, oherwydd y gostyngiad yn yr oriau agor o bosibl, ond cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant er 2018/19. Mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 12% er 2017/18 ac mae ffigurau yn y maes hwn yn parhau'n llawer uwch na'r canolrif. Nodir bod ffigurau aelodaeth wedi gostwng o ganlyniad i waith glanhau data defnyddwyr anweithredol, a bod nifer y benthycwyr gweithredol wedi gostwng hefyd. Mae lawrlwythiadau electronig, yn unol â'r patrwm yng Nghymru, wedi cynyddu 144% er 2017/18, gan adlewyrchu'r newid yn ymddygiad yr aelodau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn adrodd am ymgysylltu cryf ar y cyfryngau cymdeithasol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng 4% er 2017/18, ond mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm y caffaeliadau wedi codi, er nad yw'r naill darged na'r llall yn cael ei gyflawni. Mae Abertawe yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y gyllideb wedi'i heffeithio gan ostyngiad i'r cyllid yn ystod y flwyddyn oherwydd bod angen gwneud arbedion. Ymddengys bod y llyfrgell wedi llwyddo i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar y defnydd, yn rhannol o ganlyniad i egwyddorion rheoli stoc yn ofalus a thrwy gymhwyso ei harbenigedd proffesiynol. Mae gwariant Abertawe fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru yn y maes hwn. Cafodd y toriad yn y gyllideb yn 2019/20 effaith ar gaffael deunyddiau Cymraeg hefyd. Gwelwyd gostyngiad bach yn y maes hwn, ac nid yw'r targedau (DA 10) yma wedi'u cyflawni yn ystod y fframwaith. Mae Abertawe yn un o 5 gwasanaeth sydd heb gyflawni'r targed hwn. Mae ffigurau defnydd ar gyfer y stoc adnoddau Cymraeg wedi gwella er 2017/18. Mae'r gwasanaeth yn nodi ei fod wedi

ymrwymo i hybu'r iaith Gymraeg, ac amlinellodd nifer o fentrau sydd wedi arwain at y cynnydd mewn benthyciadau. Mae perfformiad wrth gyflenwi ceisiadau wedi'i gynnal at ei gilydd, ac mae'r targedau yn y maes hwn yn parhau i gael eu cyflawni. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol a defnydd o TGCh ill dau wedi gostwng, gan adlewyrchu'r ffaith fod yn well gan fwy a mwy o unigolion ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain, a gwelwyd cynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n mewngofnodi ac yn defnyddio Wi-Fi.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae'r lefelau staffio at ei gilydd wedi aros yr un fath er 2018/19, ond maent wedi gostwng er 2017/18. Mae cyfanswm y staff fesul 10,000 o boblogaeth yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru. Ni fu unrhyw newidiadau i'r lefelau staffio proffesiynol er 2018/19. Fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yng Nghymru, nid yw Abertawe yn cyflawni'r targedau yn y maes hwn (DA 13). Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng er 2018/19 o ganlyniad i doriad i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, ac mae buddsoddiad mewn gwasanaethau llyfrgell fesul pen o'r boblogaeth ychydig yn is na'r canolrif. Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi gostwng 12% er 2018/19, ac er bod y targed (DA 16) yn parhau i gael ei gyflawni, mae'r oriau agor erbyn hyn yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae adolygiad o oriau agor wedi effeithio ar y maes hwn yn 2019/20.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae naratif Abertawe yn dangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at raglen Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021. Mae hyn yn cynnwys danfon llyfrau i gwsmeriaid sy'n gaeth i'w tai, tai gwarchod a chartrefi nyrsio, gan gael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant (*Iach ac Egniol*). Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn gweithio gydag Empathy Lab ac ysgolion er mwyn datblygu sgiliau empathi pobl ifanc (*Uchelgeisiol ac yn Dysgu*). Roedd y meysydd eraill a nodwyd yn cynnwys *Ffyniannus a Diogel* (cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau newydd) ac *Unedig a Chysylltiedig* (datblygu darpariaeth Gymraeg a chynhwysiant digidol).

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Abertawe yn nodi bod y gwasanaeth yn parhau i weithio gyda'i gynllun llyfrgell diwygiedig sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2018-21. Mae'r prif feysydd blaenoriaeth yn cynnwys cynyddu cyfleoedd i fod yn fwy cynhwysol; parhau i weithio gydag ysgolion lleol ac ysbrydoli hoffter o ddarllen ledled Abertawe. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid, a bydd pwyslais ar ddatblygu gwasanaethau digidol, gwella sgiliau a hyder staff, a gwneud mwy o ddefnydd o offer digidol wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid newid yn dilyn Covid-19.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes ac at ei gilydd mae lefelau gwasanaeth wedi cael eu cynnal drwy gydol y fframwaith. Er bod

yr oriau agor wedi cael eu diwygio a'u bod bellach yn is na'r canolrif yng Nghymru, mae'r nifer uchel o lyfrau sy'n cael eu benthyg yn awgrymu nad yw hyn wedi effeithio ar berfformiad. Mae lefelau staffio wedi cael eu hadlinio mewn perthynas â pherfformiad llyfrgelloedd ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at wasanaeth llyfrgell cynaliadwy. Mae hyrwyddo adnoddau Cymraeg wedi arwain at welliannau yn y maes hwn ac mae hyn yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r gwasanaeth. Er bod cyllidebau wedi gostwng, mae hon yn duedd a welir mewn gwasanaethau eraill ledled Cymru. Mae lefelau staffio wedi parhau'n sefydlog ers 2018/19, ac er bod lefelau staffio proffesiynol yn parhau'n isel, mae gan y gwasanaeth weledigaeth glir ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at amrywiaeth o flaenoriaethau a nodau strategol Llywodraeth Cymru.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgriadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgriadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.